# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor[illegible]nnin-council.org.uk
**Clerc:** Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 12.03.25 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards – Cadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Ian Williams (IW), Jenny Warne (JW), Geraint Micah (GM), Keith Carroll (KC), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** David Griffiths, Jane Lawrence, Megan Griffiths, Louise Hughes - Cynghorydd Sirol.

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 **Datgan Diddordeb: Dim**

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **12.02.2025**

   Gofynnodd HD am newid gael ei wneud i **7c) Rhoddion Blynyddol**
   fel ei fod yn darllen Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd £50.00 – drwy law Swyddfa NFU
   gan fod yn rhaid gwneud y rhodd i'r swyddfa ganolog ac nid y Clwb Ffermwyr Ifanc lleol.

   **PENDERFYNWYD:** Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir yn dilyn y newid yma.
   **Cynnig** – HD **Eilydd** – IW **Arwyddwyd** – GE.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (12.02.25):**

   a) **Diweddariad ar Rybudd Sedd Wag Achlysurol** – Copi diwygiedig bellach i mewn ond dyddiad gorffen yn anghywir gan nad oedd wedi'i ddiwygio o'r hysbysiad anghywir cyntaf. JW i newid y dyddiad ac i'w roi ar y cyfryngau cymdeithasol. Copïau i'w gosod ar yr hysbysfyrddau. Copi i'w roi ar wefan y Cyngor Cymuned.

   b) **Diweddariad ar wal Y Bont Goch** – Clerc yn adrodd ei bod heb gael ymateb hyd yma.

   c) **Cynnal a Chadw'r Meinciau** – Clerc yn cadarnhau fod David Wilkes, Geraint Micah a Phil Roberts i gyd yn hapus i roi dyfynbris am y gwaith. Manyleb i'w hanfon at bob un ohonynt yn gofyn am ddyfynbris i'w gyflwyno i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Y Fanyleb i gynnwys yr arwyddion perthnasol i'w gosod ar feinciau gwlyb ac ati.
   Daeth GE a taflen ynglŷn â meinciau wedi ei gwneud o blastig wedi eu ailgylchu, a fyddai ddim angen cymaint o waith cynnal a chadw. Gwnaeth KC gais ffurfiol i brynu mainc newydd ar unwaith.
   Awgrymodd GM aros i dderbyn y dyfynbrisiau ar gyfer cynnal a chadw'r meinciau gyntaf, cyn prynnu rhai newydd.
   Adolygu'r sefyllfa eto ar ôl derbyn a trafod y dyfynbrisiau.

   **GWEITHREDU:** Clerc i ddrafftio Manyleb a'i hanfon at y rhai sydd â diddordeb i gynnal a chadw'r meinciau.

   d) **Tyrchod daear yn Cae Chwarae Llwyngwril** – cadarnhaodd GM fod Grace yn hapus i wneud y gwaith fel o'r blaen.
   Bydd angen cau'r cae chwarae am rai dyddiau a bydd angen rhoi arwydd i egluro hyn.
   Dyddiad i'w gadarnhau - a bydd GM yn cael allwedd i agor giât y cae chwarae gan GE.

   e) **Iorwg ar y wal yn y Cae Chwarae** – gohiriwyd trafod hyn tan Mis Ebrill gan fod DG yn absennol i roi diweddariad.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

   a) **E-bost oddi wrth Dŵr Cymru ynglŷn â mater carthffosiaeth ar Ffordd yr Orsaf** - Nodwyd.

   b) **Cydnabyddiaeth am y rhoddion wedi eu nodi.**

c) **E-bost ar gyfer SSAFA**
Cais hwyr wedi ei dderbyn am gyfraniad ariannol.

**PENDERFYNWYD:** Gan eu bod wedi cael rhodd o'r blaen, ac arian ar gael - cytundeb unfrydol i gyfrannu £50.00.
**GWEITHREDU:** Clerc i anfon siec.

6. Materion Cynllunio:

1. **NP5/69/T199 - Gosod Pwmp Gwres, Tremeifion, Llwyngwril**

**PENDERFYNWYD:** Cefnogi'r cais – dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr.

2. NP5/69/113W - **Trosi Ysgubor a Storfa Logiau a chodi estyniad cyswllt, Llanfendigaid, Rhoslefain**

**PENDERFYNWYD:** Cefnogi'r cais – dim gwrthwynebiad gan y Cynghorwyr.

**GWEITHREDU:** Clerc i hysbysu Parc Cenedlaethol Eryri fod y ddau gais yn cael eu cefnogi, a dim sylwadau.

7. Materion Ariannol:
   a. **Adroddiad Ariannol Mis Chwefror 2025** - wedi ei gymeradwyo yn gywir.
   **Cynnig:** HD **Eiliwyd:** IW **Arwyddwyd:** GE

   b. **Taliadau** – Talu cyflog a chosta'r Clerc am Mis Chwefror,
   Cyngor Gwynedd,
   Huw Davies (ad-daliad am anfoneb PSB ac anfoneb The Metal Store).
   Noder ... Cytunwyd yn unfrydol bod taliadau i HD i'w dalu o arian a neulltiwyd o'r cyfrif mewn perthynas â chronfa'r Nadolig.

**PENDERFYNWYD:** Pawb yn gytun gyda'r manylion taliadau, felly arwyddwyd y sieciau.
**GWEITHREDU:** Clerc i wneud y taliadau.

c. **Dyfyniadau a dderbyniwyd ar gyfer torri gwair.**
Derbyniwyd dyfynbrisiau am dorri gwair y Cae Chwarae am 2025/26 gyda Chyngor Gwynedd yn cael y contract. Penderfynwyd ohirio'r cytundebau llwybrau cyhoeddus a'r Cof Golofn tan Mis Ebrill oherwydd nad oedd digon o ddyfynbrisiau wedi eu derbyn.
**GWEITHREDU:** Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd ei bod wedi cael y contract torri'r gwair y cae chwarae a diolch i'r rhai aflwyddiannus.
Clerc i fynd ar ôl y dyfynbrisiau, sydd heb ddod i mewn, ar gyfer y llwybrau cyhoeddus a'r Cof Golofn, a mynd at gontractwyr eraill i ofyn am bris. Hysbyseb i'w roi ar wefan Facebook "Llwyngwril Appreciation Group".

d. **IRPW - mabwysiadu penderfyniad (2024-25).** Eglurodd y Clerc y drefn o hawl i hawlio.
**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr oedd yn bresennol na fyddent yn hawlio.
Byddai angen rhoi'r opsiwn i'r Cynghorwyr oedd yn absennol, yn y cyfarfod nesaf - Mis Ebrill.

e. **Dyddiadau Cyfarfodydd 2025-26.** Cymeradwywyd fel ag y drafftiwyd.
**GWEITHREDU:** Clerc i'w gosod ar y wefan a chopïau i'w gosod ar yr hysbysfyrddau.

f. **Adolygu'r Polisi Rhoddion.** Gohirio tan gyfarfod Mis Ebrill gan nad oedd DG yn bresennol.

g. **Cysylltu â'r Archwilydd Mewnol**
**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i ddefnyddio Archwiliwr Cyngor Gwynedd.
**GWEITHREDU:** Clerc i gyflogi Archwilwyr Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith archwiliad mewnol.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Ddim yn bresennol.

10. Unrhyw Fater Arall:

1. Dywedodd GE fod cwyn wedi'i dderbyn gan breswylydd ynghylch baw cŵn yn y pentref, ac yn enwedig ar Ffordd y Coleg. Credir ei fod wedi cael ei adrodd i Gyngor Gwynedd eisoes.
   **PENDERFYNWYD:** Cytunodd y Cynghorwyr ei fod yn broblem mewn sawl rhan o'r pentref, felly llythyr i gael ei anfon yn gofyn am bresenoldeb y warden cŵn.
   **GWEITHREDU:** Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

2. Cyfeiriodd GE hefyd at gyflwr dau arwydd ffordd ar y ffordd at Roslefain o ochr Llwyngwril, a oedd wedi'u gorchuddio â gordyfiant, gydag un wedi'i throelli o gwmpas ac yn gwynebu'r ffordd anghywir.
   **GWEITHREDU:** Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd, Adran Priffyrdd.

3. Hawliad TAW i'w cyflwyno erbyn 31.03.25, ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.15.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 09.04.25 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril**

Arwyddwyd
Cadeirydd ........................................ **Dyddiad** 9/4/25